**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**29 MAWRTH 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Mercher, 29 Mawrth 2023

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Richard Lloyd (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Chris Bithell, Helen Brown, Paul Cunningham, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Carol Ellis, Gladys Healey, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Hilary McGuill, Ted Palmer (ar gyfer cais 063778), Mike Peers a Dan Rose

**YMDDIHEURIADAU:** Dim

**HEFYD YN BRESENNOL**: Roedd y canlynol yn bresennol fel Aelodau Lleol:
Y Cynghorydd Mel Buckley - eitem 6.1 ar y rhaglen (FUL/000776/22)
Y Cynghorydd Glyn Banks – eitem 6.3 ar y rhaglen (FUL/000434/22)
Y Cynghorydd Sean Bibby - eitem 6.5 ar y rhaglen (063778)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Rheolwr Gwasanaeth - Datblygu, Uwch Beiriannydd – Rheoli Datblygiad Priffyrdd, Uwch Swyddogion Cynllunio, Cyfreithiwr a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

## 56. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Richard Jones gysylltiad personol yn eitem 6.4 ar y rhaglen (064109) gan fod rhywun wedi cysylltu ag o ar fwy na thri achlysur.

Datganodd y Cynghorydd Bernie Attridge gysylltiad personol yn eitem 6.5 ar y rhaglen (063778) gan fod pum gwrthwynebwr wedi cysylltu ag o.

## 57. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a oedd wedi eu dosbarthu cyn y cyfarfod ac a oedd wedi eu hatodi i'r eitem yn y rhaglen ar wefan y Cyngor:

https://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=5284&LLL=0

## 58. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2023 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorwyr Bernie Attridge a Rob Davies eu cynnig a'u heilio.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a phriodol.

**59. EITEMAU I'W GOHIRIO**

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) nad oedd unrhyw eitemau wedi eu hargymell ar gyfer eu gohirio.

**60. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y dangosir ar amserlen y Ceisiadau Cynllunio sydd wedi'i chynnwys fel atodiad.

**61. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL**

Roedd pum aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 3.45pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarllediadau yma: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

## PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 29 MAWRTH 2023

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| FUL/ 000776/22 | Cyngor Tref y Fflint | Cais Llawn - Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg Cyfystyr â Llawn Amser i 240 o blant, deulawr newydd a Meithrinfa Rhan Amser gyda 30 o blant. Adeilad Cymunedol a Throchi'r Gymraeg ar gyfer gofal plant Gofal Estynedig deulawr rhannol newydd. Prosiect yn cynnwys gwaith allanol, gan gynnwys triniaethau terfyn, pwyntiau mynediad newydd i gerddwyr, trefniadau maes parcio newydd a mynediad ehangach i gerbydau oddi ar Ffordd Dewi, Y Fflint | Siaradodd y Cynghorydd Mel Buckley (Aelod Lleol) o blaid y cais.<br><br>Cytunodd y Prif Swyddog i gysylltu â chydweithwyr Addysg ynglŷn â sylwadau ar ffi gynnal a chadw'r llain las. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| FUL/ 000562/22 | Cyngor Tref Bwcle | Cais llawn - Adeiladu Cyfleuster Tanwydd Solet, ynghyd â datblygiad ategol gan gynnwys ystafell drydan/ beiriannau, system symudol a phibellau a symudol yng Nghastell Cement, Padeswood, Yr Wyddgrug | - | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| FUL/ 000434/22 | Cyngor Cymuned Llanasa | Cais Llawn - Newid defnydd o eiddo presennol i lety gwyliau am 185 diwrnod y flwyddyn galendr, ac i ganiatáu defnydd preswyl ar gyfer gweddill y flwyddyn yn Arosfa, Axton, Treffynnon | Siaradodd Nikki Foulkes (preswylydd) yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Dean Scott (yr ymgeisydd) o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Glyn Banks (Aelod Lleol) yn erbyn y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog, yn amodol ar y newidiadau canlynol:<br><br>• Amod 1: Caniatâd dros dro am flwyddyn (yn lle dwy flynedd)<br>• Amod ychwanegol ‘Cyfyngu’r nifer uchaf o ddeiliadaeth a ganiateir i 16 o bobl’ fel yr oedd wedi’i gynnwys yn y sylwadau hwyr.<br>• Amodau i’w rhoi ar waith o’r amser y mae caniatâd yn cael ei roi. |
| 064109 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Llawn - Diwygio Caniatâd Cynllunio 062649 i ganiatáu ail-leoli adeiladu un o’r anheddau gyda garej integrol (ôl-weithredol) yn Tabernacle Street, Bwcle | Darllenwyd datganiad o wrthwynebiad ar ran Malcolm Parry (Preswylydd). | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| **RHIF YR EITEM** | **CYNGOR TREF / CYMUNED** | **SAFLE / CAIS** | **SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELODAU LLEOL** | **PENDERFYNIAD** |
|---|---|---|---|---|
| 063778 | Cyngor Tref Shotton | Cais llawn - Trawsnewid eiddo masnachol gwag i ffurfio man masnachol defnydd cymysg (A1, A2) ar lawr gwaelod gydag uned tai amlfeddiannaeth (Defnydd Unigryw) tu cefn ac uwchben yn 11 Chester Road West, Shotton | Darllenwyd datganiad o wrthwynebiad ar ran Sheila Kavanagh (Preswylydd).<br><br>Siaradodd Nick Daccus (Asiant) o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Sean Bibby (Aelod Lleol) yn erbyn y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |